

“Yn fy llais fy hun”

“Dyn ni’n gofyn i Dduw ddangos i chi yn union beth mae ei eisiau, a’ch gwneud chi’n ddoeth i fedru deall pethau ysbrydol.” (adn. 9) (Beibl.net).

Beth am ddarllen Colosiaid 1:1–14 ac yna myfyrio

Ar ein dydd olaf gyda’n gilydd, buaswn yn hoffi gadael y myfyrdod hwn gyda chi: does dim ots pa mor ddibwys deimlwn ni ein bod ni, os wyt ti’n grediniwr, y gwir ydy dy fod ti’n rhan o stori fawr Duw. Mae dy enw wedi ei sgwennu i mewn i’w epig gyffredinol ef. Un dydd, pan fydd y stori’n cael ei datguddio’n gyfan yn nhragwyddoldeb, cei weld bryd hynny pa ran chwaraeaist ti yn nhrefn dragwyddol pethau. Does dim rhaid iti dreulio dy amser yn ceisio gweithio allan mewn manylder ym mha olygfa rwyd ti’n ymddangos. Ymddirieda fod y Cyfarwyddwr Castio wedi rhoi rhan iti ei chwarae sydd, nid yn unig yn gwneud defnydd o dy arbenigrwydd a dy bersonoliaeth di fel unigolyn, ond yn bwysicach fyth, y ffordd y bu gras dwyfol ar waith yn dy fywyd di.

Mae dim ond cael rhan yn epig fawr Duw, cael ein rhwydo ynghanol y naratif mae o ar ganol ei sgwennu, yn un o’r breintiau mwyaf a roddir inni fel bodau dynol. Dyma mae cyfaill i mi, Phil Greenslade, yn ei ddweud: “Does dim ots gen i fod yn ddim mwy na chludydd arfau cyn belled â mod i’n rhan o stori fawr Duw.”

Fe’ch gadawaf gyda’r llinellau hyn gan Paul Goodman, sy’n eu disgrifio fel “gweddi fechan”.

*Fesul tudalen a thudalen rwyf wedi byw yn dy fyd di
Yn y ffordd sy’n adrodd stori, Arglwydd,
Yn fy llais fy hun rwy’n dweud dy stori di.*

Yn fy llais fy hun rwy’n dweud dy stori di. Geiriau grymus. Mor wahanol ydy bywyd pan ddown i sylweddoli bod stori ddwyfol, stori fwy yn cael ei sgwennu trwy’r cyfan sy’n digwydd inni. Disgyn dy angor i ddyfnderoedd y datguddiad yma sy’n llawn calondid ac anogaeth inni. Fe fydd, yn nhyrddloedd cryfaf bywyd, yn gymorth i dy gynnal, rwy’n addo hynny.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Sam. 20:35–42; Ioan 9:16–38

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa fantais fawr allwn ni ei chael o’i chymharu â chludydd arfau Jonathan?
2. Sut allwn ni weld a dweud am Iesu mor eglur ag y gwnaeth y dyn dall?

Gweddi

Fy Nhadau a’r Duw, sut allaf i fyth ddiolch digon iti am y fraint werthfawr o gael dweud dy stori di yn fy llais fy hun? Helpa fi o’r dydd hwn ymlaen i weld pob dim o dy safbwynt di dy hun. Yn enw Iesu. Amen.